

1 AMGYLCHIADAU YN ARWAIN AT YR ADOLYGIAD

Bu farw Oedolyn N trwy hunanladdiad yn 20 oed. Adeg ei marwolaeth, roedd hi'n byw yn rhanbarth CTM, fodd bynnag roedd yn flaenorol yn Blentyn yn Derbyn Gofal gan Awdurdod Lleol yn Lloegr. Cyn ei marwolaeth, roedd yn destun cam-drin domestig difrifol, wedi cam-drin sylweddau, wedi hunan-niweidio ac roedd yn meddwl yn barhaus am hunanladdiad. Cytunwyd bod yr achos yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion estynedig.



ADOLYGIAD YMARFER OEDOLION ESTYNEDIG

ADULT N



7 ARGYMHELLION

Mae 5 argymhelliad ar gyfer gwella o'r adolygiad hwn. Mae pob argymhelliad yn gysylltiedig â'r pwyntiau dysgu a nodir yng nghamau 4 i 6 isod. Mae'r rhain yn ffurfio cynllun gweithredu a gaiff ei fonitro gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

Anogir holl asiantaethau partner y Bwrdd Diogelu i rannu'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiad hwn.

6

YMARFER A DYSGU SEFYDLIADOL

4. Pontio i Fod yn Oedolyn – dylid ystyried trefniadau pontio ar adegau allweddol fel rhan o siwrnai person ifanc

5: Pwysigrwydd arfer tystiolaeth sy'n cefnogi camu i lawr o'r ddarpariaeth gofal – dylid ei fabwysiadu bob amser er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu

5

YMARFER A DYSGU SEFYDLIADOL

2. Trosglwyddo cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl – mae angen i ymarferwyr ymglyfarwyddo â'r Ddeddf wrth gefnogi pobl ifanc sydd wedi'u cadw'n gaeth

3. Effaith ACES, profedigaeth sydyn, a cholled - gellid bod wedi ystyried hyn trwy gyfarfod ffurfio i ystyried cefnogaeth briodol i Oedolyn N.

2

CEFNDIR

Symudodd Oedolyn N yn ôl i'r ardal hon pan oedd yn 16 oed ac ailgysylltu â'i mam waed. Roedd hi wedi cael ei chadw mewn gofal dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn flaenorol, roedd ganddi ddiagnosis o anhwylder ymddygiad ac emosiynau cymysg ond gwrthododd fewnbwn therapiwtig. Fel oedolyn roedd yn gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac roedd yn ddiodefwr cam-drin domestig. Ystyriwyd bod ganddi alluedd a pharhaodd i wrthod ymyriadau a chefnogaeth.

3

METHODOLEG

Cyfarfu'r Adolygwyr â mam waed Oedolyn N a ddisgrifiodd hi fel unigolyn ar ei gorau pan oedd gyda'i chariad cyntaf a fu farw'n drasig. Cafodd hyn effaith sylweddol ar les meddwl Oedolyn N.

Cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu gyda chynrychiolwyr o asiantaethau a oedd wedi gweithio gydag Oedolyn N. Rhannwyd amserlen o ddiwyddiadau arwyddocaol, a nodwyd y dysgu.

4

YMARFER A DYSGU SEFYDLIADOL

1. Mecanweithiau cefnogi i'r rhai sy'n cael eu lleoli gyda'r awdurdod lleol o'r tu allan – gall materion trawsffiniol fod yn her, dylid cynnal trafodaethau am y gefnogaeth y gellir ei darparu yn lleol, ac ystyried comisiynu gwasanaethau lleol a all barhau pan mae unigolion yn troi'n oedolion.